# EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG

**(Cwmni cyfyngedig trwy warant)**

**CYFRIFON ANARCHWILIEDIG am y**

**FLWYDDYN HYD AT 31ain RHAGFYR 2017**

**RHIF Y CWMNI : 08269418**

# EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG
## (Cwmni cyfyngedig trwy warant)

**Cynnwys**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr a gwybodaeth arall** | **2** |
| **Adroddiad y cyfarwyddwyr** | **3** |
| **Adroddiad y cyfrifwyr** | **4** |
| **Cyfrif elw a cholled** | **5** |
| **Mantolen** | **6** |
| **Datganiad symudiad ecwiti** | **7** |
| **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** | **8-13** |

## EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG
## (Cwmni cyfyngedig trwy warant)

**Cyfarwyddwyr a gwybodaeth arall**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr** | Mr Dafydd Meirion Roberts<br>Mr Huw Chiswell<br>Mr Jim O'Rourke<br>Mr Rhys Harris<br>Ms Ruth Myfanwy Edwards<br>Mr Ynyr Roberts<br>Mr Benjamin Kevin Davies<br>Mr Arwyn Jones<br>Mr Bryn Fôn |
| **Rhif y cwmni** | 08269418 |
| **Swyddfa gofrestredig** | 32 Y Maes<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 2NN |
| **Cyfrifwyr** | W J Matthews a'i Fab<br>11-15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1AB |
| **Bancwyr** | Banc HSBC<br>24 Y Maes<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 2NB |

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR**

**AM Y FLWYDDYN HYD AT 31ain RHAGFYR 2017**

Cyflwyna'r cyfarwyddwyr eu hadroddiad ynghyd a'r cyfrifon, sydd heb eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu'r 31 Rhagfyr 2016.

**Gweithgareddau**
Ffurfiwyd y Cwmni ar y 26 Hydref 2012, ac fe gychwynnodd fasnachu ar y 1 Ionawr 2013. Prif weithgaredd y Cwmni yw gwerthu trwyddedau i ddarlledwyr i ddarlledu ar radio a theledu y gweithiau sy'n ffurfio repertoire Eos, sef y gweithiau hynny sy'n eiddo i aelodau Eos, boed nhw'n gyfansoddwyr neu yn gyhoeddwyr. Mae Eos hefyd yn dosbarthu'r arian a gesglir o'r darlledwyr i'w aelodau fel breindal, yn unol a'r polisi dosbarthu a nodir isod.

**Polisi dosbarthu**

Mae Eos yn codi comisiwn o 20% ar y cyfan o'r incwm a gaiff am werthu trwyddedau, ac fe delir y gweddill i'r aelodau fel breindal bob chwarter. Mae Eos yn derbyn gwybodaeth gan y PRS am y gweithiau sydd wedi eu darlledu, ac yna mae'r data yma yn cael ei brosesu gan Eos er mwyn cyrraedd at ffigwr i'w ddosbarthu i bob aelod. Er mwyn arbed costau banc, nid yw symiau llai na £10 yn cael eu talu allan, ac fe gedwir y symiau yma yn ol tan bod y swm sy'n ddyledus i'r aelod yn fwy na £10.

Yn y flwyddyn yn diweddu'r 31 Rhagfyr 2017 fe ddosbarthwyd breindal o £157,159 i'r aelodau.

**Y cyfarwyddwyr**
Cyfarwyddwyr y cwmni ar 31ain Rhagfyr 2017 oedd :

Dafydd Meirion Roberts
Rhys Harris
Ruth Myfanwy Edwards
Ynyr Roberts
Benjamin Kevin Davies
Huw Chiswell
Jim O'Rourke
Arwyn Jones
Bryn Fôn (penodwyd 03/11/2017)

Paratowyd adroddiad y cyfarwyddwyr yn unol â'r darpariaethau arbennig sydd yn berthnasol i gwmnïau bychain yn unol a cyfundrefn cwmnïau bychain .

.............................................................................

**Cyfarwyddwr**

**Dyddiad: 24ain Medi 2018**

## Adroddiad y Cyfrifwyr Siartredig at Fwrdd Cyfarwyddwyr ar Datganiadau Anarchwiliedig EOS - Yr Aasiantaeth Hawliau Darlledu Cyfyngedig

Yn unol â'n llythyr penodiad er mwyn eich cynorthwyo i gydymffurfio â'ch dyletswyddau dan Ddeddf Cwmnïau 2006, rydym wedi llunio datganiadau ariannol y cwmni sydd yn cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig o lyfrau cyfrifo'r cwmni ac ar sail yr wybodaeth ac eglurhad a roddwyd i ni.

Gwneir yr adroddiad hwn i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni, fel corff, yn unol â thelerau ein penodiad. Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith fel y gallem baratoi y datganiadau ariannol y cawsom ein penodi i'w paratoi, adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni ein bod wedi gwneud hynny, a datgan y materion hynny y cytunwyd i ddatgan amdanynt yn yr adroddiad hwn ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf llawnaf a ganiateir dan gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd arnom unrhyw gyfrifoldeb i neb heblaw y Cwmni a Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni, fel corff, am ein gwaith ac am yr adroddiad hwn.

Rydym wedi cwblhau y penodiad hwn yn unol â'r arweiniad technegol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad o Gyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru ac wedi cydymffurfio â'r arweiniadau ethegol a roddwyd gan y Sefydliad yn berthnasol i aelodau sydd yn ymgymryd â llunio datganiadau ariannol.

Rydych wedi cydnabod ar y fantolen am y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2016 eich dyletswydd i sicrhau fod y cwmni yn cadw cofnodion cyfrifon cywir ac i baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg dan Ddeddf Cwmniau 2006. Rydych yn ystyried fod y cwmni yn rhydd o'r gofynion statudol i gynnal archwiliad am y cyfnod.

Nid ydym wedi cael cyfarwyddyd i gynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol. Yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn o unrhyw fath ar y datganiadau ariannol. Oherwydd hyn, nid ydym wedi sicrhau cywirdeb y cofnodion cyfrifo nac os ydynt yn gyflawn, nac ychwaith y wybodaeth a'r eglurhad a roddwyd i ni gennych. Felly nid ydym yn mynegi unrhyw farn ar y datganiadau ariannol.

**W. J. Matthews a'i Fab**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**11-15 Bont y Bridd**
**CAERNARFON**
**LL55 1AB**

**Dyddiedig: 24ain Medi 2018**

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**

**CYFRIF ELW A CHOLLED**
**AM Y FLWYDDYN HYD AT 31ain RHAGFYR 2017**

| | Nodyn | 2017<br>£ | 2016<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Trosiant** | 4 | 49,548 | 43,807 |
| Treuliau gweinyddol | | (33,083) | (32,082) |
| **Elw gweithredol** | 5 | 16,465 | 11,725 |
| Llog banc ac incwm cyffelyb | | 56 | 62 |
| **Elw cyn treth gorfforaeth** | | 16,521 | 11,787 |
| Treth ar elw ar weithgareddau arferol | 6 | (3,179) | (2,358) |
| **Elw wedi treth gorfforaeth** | | 13,342 | 9,429 |
| Cyfrif Elw a Cholled d/y | | 31,296 | 21,867 |
| **Cyfrif Elw a Cholled c/y** | | £44,638<br>====== | £31,296<br>====== |

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn deillio o weithrediadau sydd yn parhau.

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**
**MANTOLEN**
**31ain RHAGFYR 2017**

| | Nodyn | 2017 £ | 2017 £ | 2016 £ | 2016 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau dirweddol | 7 | | 494 | | - |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | 19,347 | | 25,740 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 218,541 | | 157,222 | |
| | | 237,888 | | 182,962 | |
| **Credydwyr:** | | | | | |
| Swm yn daladwy o fewn blwyddyn | 9 | (193,650) | | (151,666) | |
| **Asedau cyfredol llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 44,238 | | 31,296 |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 44,732 | | 31,296 |
| **Darpariaeth am rwymedigaethau** | 10 | | (94) | | - |
| **Asedau Net** | | | £44,638 | | £31,296 |
| **Cyfalaf a chronfeydd neilltuedig** | | | | | |
| Cyfrif elw a cholled | | | 44,638 | | 31,296 |
| **Cronfeydd yr aelodau** | | | £44,638 | | £31,296 |

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2017 'roedd gan y cwmni hawl i'r rhyddiadau a bennir gan Adran 477 Deddf Cwmnïau 2006, rhag archwilio'r datganiadau ariannol.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr:

- Ni dderbyniwyd rhybudd o dan Adran 476 gan yr aelodau yn gofyn i'r cwmni sicrhau archwiliad o'i gofnodion ariannol am y cyfnod ddywededig.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am sicrhau fod y cwmni yn cadw cofnodion ariannol priodol a pharatoi datganiadau ariannol sydd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

Paratowyd y cyfrifon yn unol a'r darpariaethau sydd yn berthynol i gwmnïau bychain ac yn unol â FRS 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

......................................................
**Cyfarwyddwr**

**Dyddiad: 24ain Medi 2018**

**Rhif Cofrestredig: 08269418**

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**
**DATGANIAD SYMUDIAD ECWITI**
**31ain RHAGFYR 2017**

| | Cyfrif Elw a Cholled £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|
| **Ar 1af Ionawr 2016** | 21,867 | 21,867 |
| Elw am y flwyddyn | 9,429 | 9,429 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 9,429 | 9,429 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2016 a 1af Ionawr 2017** | 31,296 | 31,296 |
| Elw am y flwyddyn | 13,342 | 13,342 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 13,342 | 13,342 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | £44,638 | £44,638 |

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**
**NODIADAU ar y DATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN HYD AT 31ain Rhagfyr 2017**

## 1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Cofrestrwyd y cwmni yng Nghymru fel cwmni preifat wedi ei gyfyngu dan warant. Cyfeiriad cofrestredig y cwmni yw 32 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NN.

## 2. DATGANIAD CYDYMFFURFIO

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi i gydymffurfio â darpariaethau Adran 1A FRS 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

## 3. POLISIAU CYFRIFYDDOL

### a) Sail Cyfrifyddol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn cost hanesyddol ac yn unol â'r safonau cyfrifo.

### b) Trosiant

Mae'r trosiant yn cynnwys gwerth anfonebol (heb gynnwys T.A.W.) am wasanaethau a gyflawn--wyd i drydydd person.

### c) Trethiant

Mae’r codiant treth yn seiliedig ar yr elw am y cyfnod.

Mae treth gohiriedig yn codi gan fod eitemau incwm a gwariant yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiant treth mewn cyfnodau gwahanol i’r cyfnodau y maent yn ymddangos yng nghyfrifon y cwmni. Darperir treth gohiriedig yn llawn ar wahaniaethau amseru sydd yn rhoi oblygiadau i dalu mwy (neu lai) o dreth yn y dyfodol, ar y graddfa treth disgwyliedig pan fydd y gwahaniaeth amseru yn gwrthdroi sydd yn seiliedig ar y graddfeydd treth a’r gyfraith gyfredol.

### ch) Asedau Sefydlog Dirweddol

Mae Asedau Sefydlog Dirweddol yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost gwreiddiol ac yna yn cael eu datgan yn ôl eu cost llai dibrisio ac unrhyw golledion amharu.

Mae unrhyw asedau sydd yn cael eu datgan yn ôl gwerth ail brisiad yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad llai dibrisio ac unrhyw golledion amharu.

Mae cynnydd yng ngwerth ased fel canlyniad i ail brisiad yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Elw a Cholled ac yn cael eu cynnwys yng nghronfeydd y cwmni. Mae lleihad yng ngwerth ased fel canlyniad i ail brisiad yn cael ei gynnwys yng Nghyfrif Elw a Cholled y cwmni.

### d) Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar offer a chyfarpar mewn symiau chwarter gwerth llyfr net sydd yn cael ei ddwyn ymlaen.

### dd) Amhariad

Mae adolygiad ar gyfer amhariad yn cael ei gynnal ar bob diwedd blwyddyn gydag amcangyfrif yn cael ei wneud o werth yr asedau, lle mae yna arwyddion o amhariad yn bodoli. Lle mae gwerth yr ased yn y cyfrifon yn uwch na’r gwerth ar ôl yr amhariad yna mae’r ffigwr yn y cyfrifon yn cael ei leihau. Mae addasiadau amharu a wnaed yn y gorffennol hefyd yn cael ei adolygu ar bob diwedd blwyddyn.

**e) Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn cael eu cydnabod lle mae gan yr endyd ddyled ar ddiwedd ei flwyddyn yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol lle mae'n debygol y bydd angen i'r endyd drosglwyddo budd economaidd wrth setlo'r ddyled ac mae posib amcangyfrif y ffigwr yn gywir. Mae darpariaethau yn cael eu dangos fel dyledion yn y Fantolen fel cost yn y Cyfrif Elw a Cholled.

Mae darpariaethau yn y lle cyntaf yn cael eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o faint y buasai'n cymryd i setlo'r ddyled ar ddiwedd y flwyddyn ac yna maent yn cael eu hadolygu ar bob pen blwyddyn yn dilyn hynny. Mae unrhyw addasiadau i'r darpariaeth a wnaed yn y gorffennol yn cael ei ddangos yn y Cyfrif Elw a Cholled.

**f) Cost pensiwn diffiniedig**

Dangosir cyfraniadau i'r cynllun pensiwn diffiniedig fel cost am y cyfnod y darperir y gwasanaeth.

## 4. CYFYNGEDIG DRWY WARANT

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau.

## 5. ELW GWEITHREDOL

| | **2017** | **2016** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cyrhaeddir yr elw gweithredol ar ôl codi: | | |
| Dibrisiant | 165 | 236 |
| | ====== | ====== |

Mae'r cwmni yn gweithredu cynllun pensiwn gyda chyfraniadau diffinedig ar ran cyflogai Yn ystod y flwyddyn cyfrannwyd £2,387 i'r cynllun pensiwn (2016 - £2,503). Ar 31 Rhagfyr 2017 'roedd cyfraniadau i'r cynllun pensiwn wedi eu talu'n llawn.

Ar gyfartaledd'roedd 1 (2016 – 1) person yn gyflogedig gan y cwmni yn ystod y flwyddyn.

## 6. TRETH AR ELW AR WEITHGAREDDAU ARFEROL

| | **2017** | **2016** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Treth Gorfforaeth | 3,085 | 2,405 |
| Treth Gohiriedig | | |
| Gwahaniaethau amseru, cychwynnol a gwrthdroi | 94 | (47) |
| | ______ | ______ |
| Treth ar elw ar weithgareddau arferol | £3,179 | £2,358 |
| | ===== | ===== |

## 7. ASEDAU SEFYDLOG DIRWEDDOL

| | Offer a Chyfarpar £ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1af Ionawr 2017 | 944 |
| Ychwanegiadau | 659 |
| Ar 31ain Rhagfyr 2017 | £1,603 |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1af Ionawr 2017 | 944 |
| Cost am y cyfnod | 165 |
| Ar 31ain Rhagfyr 2017 | £1,109 |
| **Gwerth net llyfr** | |
| Ar 31ain Rhagfyr 2017 | £494 |
| Ar 31ain Rhagfyr 2016 | £- |

## 8. DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | £19,347 | £25,740 |

## 9. CREDYDWYR - swm yn daladwy o fewn blwyddyn

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---|---|
| Treth Gorfforaeth | 3,084 | 2,840 |
| Trethi eraill | 16,155 | 10,072 |
| Credydwyr eraill | 171,376 | 137,013 |
| Croniadau ac incwm ymlaen llaw | 3,035 | 1,741 |
| | £193,650 | £151,666 |

## 10. DARPARIAETH AM RWYMEDIGAETHAU A CHOSTAU

| | **Treth Gohiriedig Nodyn 11 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|
| Ar 1 Ionawr 2017 | - | - |
| Symudiadau yn y flwyddyn | 94 | 94 |
| Ar 31 Rhagfyr 2017 | £94 | £94 |
| | ======= | ====== |

## 11. TRETH GOHIRIEDIG

| | **31 Rhagfyr 2017 £** | **31 Rhagfyr 2016 £** |
|---|---|---|
| Lwfans cyfalaf wedi cyflymu | £94 | £- |
| | ====== | ====== |

| | |
|---|---|
| Darpariaeth ymlaen | - |
| Cost treth gohiriedig yn y cyfrif elw a cholled | 94 |
| Darpariaeth ar 31ain Rhagfyr 2017 | £94 |
| | ====== |

## 12. GOFYNION ADRODD STATUDOL

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei ddatgelu er mwyn cwrdd â gofynion "The Copyright (Regulation of Relevant Licensing Bodies) Regulations 2014''.

**Rhanddeiliaid**
Mae'r Cwmni'n cynrychioli 347 o gyfansoddwyr/ysgrifenwyr unigol, ynghyd a 35 o gyhoeddwyr, sydd yn eu tro yn cynrychioli tua 2,000 o gyfansoddwyr/ysgrifenwyr sydd ddim yn aelodau.

**Polisi Dosbarthu**
Y polisi yw i ddosbarthu y cyfan o'r incwm o ffioedd trwyddedu ar wahan i gomisiwn o 20% ar gyfer costau rhedeg y cwmni. Mae symiau pitw yn cael eu dal yn ol tan bod y swm dyledus yn pasio £10. Mae'r cwmni'n dal yn ôl cronfa o £10,000 er mwyn cwrdd ag unrhyw daliadau mawrion, annisgwyl, a all ddeillio o weithiau yn cael eu cofretsru'n hwyr gan aelodau, neu oherwydd gwallau gweinyddol gan y PRS, sy'n golygu bod dosbarthiadau breindal yn cael eu ôl ddyddio.

| **Incwm o drwyddedau a dosbarthiadau** | **£** | **£** |
|---|---|---|
| Incwm o drwyddedau am y cyfnod | 239,403 | 212,367 |
| Llai Comisiwn | (47,881) | (42,140) |
| Swm net yn daladwy i'r aelodau | 191,522 | 170,227 |
| Talwyd allan yn y cyfnod | (157,159) | (150,312) |
| | 34,363 | 19,915 |
| Balans 01/01/2017 | 137,013 | 117,098 |
| Yn ddyledus i'r aelodau ar y 31/12/2017 | £171,376 | £137,013 |

Mae ffioedd trwyddedau yn cael eu casglu'n fisol ymlaen llaw, ac mae'r dosbarthiadau yn cael eu gwneud yn chwarterol, fel arfer tua 6-8 wythnos ar ol diwedd y chwarter. Mae'r dyraniad o'r trwyddedau i'r aelodau, a'r taliadau iddynt wedi eu gwneud yn unol â'r polisi dosbarthu a nodir uchod.

| **Costau gweinyddu'r trwyddedau** | **£** | **£** |
|---|---|---|
| Cyflogau | 25,016 | 24,031 |
| Rhent | 2,480 | 2,400 |
| Post, argraffu a deunyddiau swyddfa | 101 | 101 |
| Cost cyfrifiadurol | 183 | - |
| Prosesu Data | 1,669 | 1,667 |
| Teithio a chynhaliaeth | 858 | 1,571 |
| Cyfrifo | 852 | 840 |
| Man gostau | 185 | - |
| Dibrisio | 165 | 236 |
| Cyfanswm | £31,509 | £30,846 |

**Penodi Cyfarwyddwyr**
Mae'r Cyfarwyddwyr yn cael eu penodi yn unol ag amodau Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni.

**Cyflog y Cyfarwyddwyr**
Nid yw'r cyfarwyddwyr yn cael tâl am eu gwasanaeth fel Cyfarwyddwyr an-weithredol. Maent yn derbyn treuliau yn unig. Serch hynny, mewn amgylchiadau arbennig, bydd cyfarwyddwyr yn derbyn cyflog.

**Datrys Cwynion**
Fe gyfarfu'r Cwmni â gofynion y côd ymarfer ar gyfer delio â chwynion. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod.

## 13. PARTÏON RHEOLI

Rheolir y cwmni gan y cyfarwyddwyr sydd â hawliau pleidleisio cyfartal. Nid oes unrhyw barti rheoli yn y pen draw.

Nid yw’r tudalennau canlynol yn ffurfio rhan o'r cyfrifon statudol.

**EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYFYNGEDIG**

**CYFRIF ELW A CHOLLED**

**AM Y FLWYDDYN HYD AT 31ain RHAGFYR 2017**

| | **2017 £** | **2017 £** | **2016 £** | **2016 £** |
|---|---|---|---|---|
| **Trosiant** | | | | |
| Comisiwn | | 47,881 | | 42,140 |
| Incwm arall | | 1,667 | | 1,667 |
| | | 49,548 | | 43,807 |
| **Cost Gweinyddol** | | | | |
| Cyflog gweinyddol | 22,629 | | 21,528 | |
| Pensiwn cyflogwr | 2,387 | | 2,503 | |
| Rhent | 2,480 | | 2,400 | |
| Post, papur a printio | 101 | | 101 | |
| Cost cyfrifiadurol | 183 | | - | |
| Prosesu data | 1,669 | | 1,667 | |
| Trafeilio | 487 | | 813 | |
| Ffi cyfreithiol a proffesiynol | 1,421 | | 997 | |
| Costau bwrdd cyfrawyddwyr | 371 | | 758 | |
| Cost cyfrifo | 852 | | 840 | |
| Costau banc | 152 | | 239 | |
| Man gostau | 185 | | - | |
| Dibrisiant | 165 | | 236 | |
| | | (33,083) | | (32,082) |
| | | 16,465 | | 11,725 |
| **Llog a dderbyniwyd** | | | | |
| Llog banc | | 56 | | 62 |
| **Elw cyn treth** | | £16,521 | | £11,787 |
| | | ======= | | ======= |